




LLWYBRAU I DDARGANFYDDIAD

*Ymchwilio i
Orffennol Ynys Môn*

PATHWAYS TO DISCOVERY

*Investigating
Anglesey's Past*



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust



YR HER

Mae archaeoleg Ynys Môn yn ymestyn dros ddeg mil o flynyddoedd neu fwy, gan gynnwys beddrodau Neolithig, cestyll canoloesol a mwyngloddiau copr Mynydd Parys.

Mae'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn un o bedair a sefydlwyd yn 1974 drwy Gymru. Mae'n cynnwys yr hen sir Gwynedd a rhan o Gonwy ac Ynys Môn. Nod yr Ymddiriedolaeth yw hybu dealltwriaeth pobl o archaeoleg. Mae Ymddiriedolaeth yn datblygu rhaglenni gwaith i gofnodi, dehongli, diogelu, darlunio a hybu treftadaeth ddiwylliannol y rhanbarth.

*Astudiaeth o olion ffisegol a'r effaith y mae dyn wedi'i chael ar yr amgylchedd yw **Archaeoleg** ...*

— Cyngor Archaeoleg Prydain

THE CHALLENGE

The Isle of Anglesey's archaeology spans ten thousand years or more, taking in Neolithic tombs, medieval castles and the copper mines of Parys Mountain.

Gwynedd Archaeological Trust is one of four Trusts formed in 1974 to operate across Wales. It covers the old county of Gwynedd including part of Conwy and the Isle of Anglesey. The aim of the Trust is to advance the understanding of archaeology. The Trust develops programmes of work to record, interpret, conserve, illustrate and promote the cultural heritage of the region.

***Archaeology** is the study of the material remains and environmental effects of human behaviour ...*

— Council for British Archaeology



Hawlfraint y Goron © Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Crown copyright © Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales



Cloddiwyd tai crwn o'r Oes Haearn yn Nhŷ Mawr, ger Ynys Lawd gan William Owen Stanley yn y 1860au ac yna gan Christopher Smith yn 1978-1982. Bellach mae'n atyniad poblogaidd i ymwelwyr ac yn cael ei reoli gan Cadw.

Safle sydd wedi'i gofnodi: Siambr gladdu Trefignath ger Caergybi. Tynnwyd y llun yn y 1930au.

The Iron Age hut group at Tŷ Mawr, near South Stack, was excavated by William Owen Stanley in the 1860s and again by Christopher Smith in 1978-1982. It is now a popular visitor attraction managed by Cadw.

A known site: Trefignath burial chamber near Holyhead, photographed in the 1930s.

Mae nifer o fwyneill carreg Neolithig wedi eu darganfod yn Ynys Môn wrth aredig neu wneud gwaith amaethyddol arall.

Many Neolithic stone axes found on Anglesey have been discovered during ploughing or other agricultural work.



↑ Calennau copr (uchod) ac angor carreg. Anfuwyd y rhain ar hap ar waelod yr Afon Menai ac mae'n fwy na thebyg eu bod yn perthyn i'r cyfnod yr oedd y Rhufeiniaid yma.
↓ Cymharu: Mae'r froetsh ganoloesol gynnar hon (uchod) a danfuwyd ger Pentraeth yn 2007 yn debyg i froetsh Pant-y-Saer a danfuwyd yn y 30au.

↑ A copper ingot, 'copper cake' (top picture), and a stone anchor. These accidental discoveries from the Menai Strait probably date from the Roman occupation.



↑ Comparisons: An early medieval brooch (top picture) found near Pentraeth in 2007 is similar to the Pant-y-Saer brooch found in the 1930s.

Beth ddylech chi ei wneud os ydych chi'n darganfod gwrthrych archaeolegol? ... Cysylltwch â'r Cynllun Henebion Cludadwy:

www.finds.org.uk

Mae Swyddog Cyswllt Darganfyddiadau lleol y cynllun yn cofnodi unrhyw wrthrychau sy'n cael eu darganfod ar gronfa ddata fel eu bod ar gael i'r cyhoedd eu gweld ac i ymchwilyr eu hastudio.

Bellach mae'n cynnwys bron i 700,000 o wrthrychau a thua 300,000 o ddelweddau.

What do you do if you find an archaeological object? ... Report it to the Portable Antiquities Scheme:

www.finds.org.uk

The scheme's local Finds Liaison Officer records found objects onto a database for researchers to study and the public to view. The database now holds nearly 700,000 objects and about 300,000 images.



DARGANFYDDIADAU

Mae rhai safleoedd archaeolegol yn hawdd eu gweld ac yn adnabyddus: does dim angen chwilio am y rhan fwyaf o gestyll a meini hirion. Caiff rhai gwrthrychau hynafol eu darganfod ar hap wrth balu'r ardd, neu ddefnyddio datgelyddion metel neu wrth i ffermwyr aredig y tir. Daw rhai gwrthrychau i'r fei wrth i'r morlin gael ei erydu.

Mae ymchwil gan brifysgolion neu gan Cadw, corff treftadaeth Cymru, hefyd yn gallu arwain archaeolegwyr at ddarganfyddiadau newydd. Weithiau mae hanes a thraddodiadau lleol yn helpu i ddod o hyd i leoliad safleoedd.


Gall safleoedd newydd ddod i'r fei yn ystod prosiectau adeiladu neu beirianyddol. Mae rheoliadau cynllunio yn sicrhau bod adeiladau hanesyddol ac archaeoleg yn cael eu cofnodi cyn dechrau unrhyw waith ar y safle.

DISCOVERY

Archaeological sites which are clearly visible, such as standing stones or castles, have been known about from the time they were first constructed. A large part of our archaeological heritage, however, still lies undiscovered below ground. These 'lost' sites can be rediscovered in many ways.

Some ancient objects are found by accident: they may be dug up in gardens or ploughed up by farmers. Research, undertaken by universities, the Archaeological Trusts and by Cadw, can lead to the discovery of new sites. Local history and traditions can provide pointers to the locations of sites.

Previously unknown sites may be uncovered as a result of construction or engineering projects. Strict planning regulations ensure these sites will be fully recorded before development. The cost must be met by the developers.



Mae offer geoffis-egol yn mesur priodweddau priddoedd ac olion claddedig. Trwy gymryd miloedd o ddarlleniadau gallwn adeiladu map o'r safle heb gloddio'r un twll.

Geophysical equipment measures the properties of buried soils and remains. By taking thousands of readings a site map is built up without digging a single hole.



Mae'r awyrlun yma'n dangos patrymau caeau canoloesol yn Llanddona.

An aerial photograph reveals medieval field patterns at Llanddona.

Mae defnyddio datgelyddion metel yn ffordd o ddarganfod rhai safleoedd a fyddai'n anodd eu darganfod trwy ddulliau eraill, fel marchnadoedd neu feysydd y gad.

Metal detectors can identify some sites that are difficult to find by other means, such as markets or battlefields.

Mae arferion gwael yn gallu cael effaith andwyol ac os bydd gwrthrychau'n cael eu gwerthu'n anghyfreithlon gall olygu ein bod yn colli darn o'n hanes.

Bad practice can be disastrous and illegal sale of finds may mean that a piece of our history is lost.



↑ Defnyddir ffosydd prawf i archwilio ardaloedd bach, i asesu dyfnder a chymhlethdod unrhyw olion. Gellir defnyddio peiriannau cloddio mecanyddol i gloddio i lawr at lefelau archaeolegol. Yna gellir cloddio unrhyw nodweddion neu olion a ddarganfyddir â llaw.

↓ Roedd darnau arian yn gymorth i ni ddod o hyd i safle marchnad ganoloesol yn Llan-faes

↑ Trial trenches are used to test small areas, to assess the depth and complexity of any remains. Mechanical excavators may be used to dig down to the top of the archaeological layers. Any features or deposits found can then be excavated by hand.

↓ Coins helped us locate the site of a medieval market at Llan-faes.



Mae Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd yn adran ar wahân i Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd sy'n cynnig cyngor i Awdurdodau Cynllunio Lleol, asiantaethau cenedlaethol, cwmnïau cyfleustodau a datblygwyr. Mae'n monitro'r holl waith archaeolegol a wneir mewn unrhyw ddatblygiadau.

www.heneb.co.uk/gaps.html



Gwynedd Archaeological Planning Service is a separate section of Gwynedd Archaeological Trust. It provides advice to Local Planning Authorities, national agencies, utilities companies and developers.

It monitors all archaeological work that arises from planning applications.

www.heneb.co.uk/gaps.html

ASESU

Ar ôl cael hyd i safle, y cam nesaf yw cael mwy o wybodaeth amdano.

- ❖ Mewn *arolwg ar droed* rydym yn chwilio am gliwiau ar y ddaear. Mewn arolwg geoffisegol rydym yn defnyddio offer i fesur magnetedd o dan y ddaear a gwrthedd trydanol neu gymryd darlleniadau radar. Gyda'i gilydd, mae'r darlleniadau hyn yn gallu creu map o'r safle heb gloddio'r un twll.
- ❖ Mae defnyddio *datgelyddion metel* yn ffordd o ddarganfod rhai safleoedd a fyddai'n anodd eu darganfod trwy ddulliau eraill,.
- ❖ Gall *awyrluniau* ddangos ôl cnydau a nodweddion eraill. Mae hefyd yn bosibl cynnal arolwg o safle trwy ddefnyddio laser o awyrennau (LiDar).
- ❖ Defnyddir *ffosydd prawf* i archwilio ardaloedd bach, i asesu pa mor ddwfn a chymhleth yw'r olion.

ASSESSMENT

Once a site is located, we need to find out more.

- ❖ In a *walk-over survey* we look for clues on the ground. In a *geophysical survey* we use equipment to measure underground magnetism and electrical resistance or to give radar readings. Collating the readings can create a site map without digging a single hole.
- ❖ *Metal detectors* can identify some sites that are difficult to find by other means.
- ❖ *Aerial photographs* can reveal cropmarks and other features. Sites may also be surveyed beaming lasers from an aircraft using *LiDar* ('Light Detection and Ranging').
- ❖ *Trial trenches* are used to test small areas, to assess the depth and complexity of any remains.



Cloddio'r safle Rhufeinig yn Nhai Cochion, ger Brynsiencyn yn 2011. Ariannwyd arolwg gan Cadw i archwilio'r ardal.

The Roman site at Tai Cochion, near Brynsiencyn, under excavation in 2011. Cadw funded the project.



Tŷ Mawr, ger Caergybi, lle darganfuwyd berfa o'r Oes Efydd a mynwent ganoloesol gynnar cyn adeiladu'r A55.

Tŷ Mawr, near Holyhead, where a Bronze Age barrow and early medieval cemetery were dug in advance of the A55 construction.




↑ Darnau arian o gyfnod y Rhufeiniad a danfuwyd yn Nhai Cochion — gyda Julia Maesa (c.OC 165–c.226) ar y chwith, ar y naill a Carausius (d.OC 293) ar y llall.

↓↓ Esgyrn o'r fynwent ganoloesol gynnar yn Nhywyn y Capel, Trearddur, a gloddiwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 1998 a 2002.

Mae safle'n datblygu trwy gyfres o 'ddigwyddiadau', e.e. haen yn cael ei dyddodi, twll yn cael ei dyllu neu wal yn cael ei hadeiladu. Rydym yn dechrau gyda'r digwyddiad olaf ac yn gorffen gyda'r cyntaf. Olion y digwyddiadau hyn yw'r 'cyd-destunau'.

Ystyr stratigraffeg yw astudio trefn cyd-destunau archaeolegol. Yma dangosir sut mae'r haenau wedi datblygu. Os oes pyllau a thyllau wedi eu cloddio yn y gorffennol, mae eitemau'n perthyn i gyfnod mwy diweddar yn gallu bod yn is yn y ddaear nag eitemau o gyfnod cynharach.



↑↑ Roman period coins from Tai Cochion feature power broker Julia Maesa (c.AD 165–c.226) on the left, and self-declared emperor Carausius (d.AD 293).

↓ Bones from the early medieval cemetery at Towyn y Capel, Trearddur, excavated by the Trust in 1998 and 2002.



A site develops through a sequence of 'events', such as the deposition of a layer, the digging of a pit or the building of a wall. We start with the last event and finish with the first. The remains of these events are called 'contexts'.

Stratigraphy is the study of the sequence of archaeological contexts. This section shows how the layers have built up. If historical pits and ditches have been dug, later finds may end up lower in the ground than earlier ones.

CLODDIO

Erbyn hyn rydym wedi casglu cymaint o wybodaeth â phosibl am y safle heb ei gloddio.

Ni chaiff y rhan fwyaf o safleoedd eu cloddio. Er bod llawer o wybodaeth i'w chael wrth gloddio, mae'r broses hefyd yn gallu dinistrio gwybodaeth bwysig. Y mae hefyd yn gostus ac yn cymryd llawer o amser.

Pryd ydym ni'n cloddio safleoedd?

Fel arfer mae safleoedd yn cael eu cloddio os ydynt dan fygythiad a phan nad yw'n bosibl eu diogelu neu eu gwarchod. Ond gall safleoedd gael eu cloddio hefyd er mwyn ateb cwestiynau ymchwil penodol, neu helpu i benderfynu sut i'w diogelu.

EXCAVATION

We have by now assembled as much information as we can about the site without excavation.

Most sites will not be excavated. Although excavation can tell us a lot about the site, the process may destroy important information. It is also expensive and time consuming.

When do we excavate sites?

Sites are usually excavated if they are under threat and cannot be protected or preserved. However excavations might also be undertaken to answer specific research questions, or to help decide how to protect a site.



1



2



3

1 Defnyddir lefel i farcio uchder ar y cynlluniau. Mae'r rhain yn seiliedig ar lefel môr cymedrig y Data Ordnans Cenedlaethol.

2 Crëir drychiadau fertigol trwy'r dyddodion er mwyn cofnodi trefn yr haenau. Gwneir hyn trwy fesur i lawr o linell lorweddol.

3 Caiff pob darganfyddiad ei rifo, er mwyn gallu croesgyfeirio at yr haen lle daethpwyd o hyd iddo. Caiff ei lanhau, ei roi mewn bag a'i labelu'n barod i'w astudio gan arbenigwyr.

4 Os oes mawn ar y safle, weithiau cymerir sampl o golofn baill er mwyn astudio'r amgylchedd yn y gorffennol. Mae paill yn gallu goroesi mewn rhai haenau o bridd.

5 Mae theodolit gorsaf gyflawn yn mesur a chofnodi pellter ac onglau, ac yn cyfrifo cyfesurynnau grid.

6 Rhaid disgrifio'r holl ddyddodion a'r nodweddion ar dudalennau cyd-destun pwrpasol.

7 Mae llawer o waith cynllunio manwl yn cael ei wneud â llaw, gan ddefnyddio ffrâm sgwâr.

8 Caiff nodweddion archaeolegol eu cloddio'n ofalus â llaw.

9 Rhaid i gyfarwyddwr y safle gadw golwg gyffredinol ar y gwaith a gwirio'r gwaith papur i sicrhau bod popeth yn cael ei gofnodi.



4



5



6



7



8



ON SITE

During an excavation everything must be recorded in detail: the shape of a pit, the sequence of layers filling it, the exact position of an object.

This is done by hand drawing and writing notes as well as by using technology such as intelligent 'total station' theodolites or Global Positioning Systems.



9




GWAIR / GRASS
Gronynnau paill o dan y microsgop.

GWERN / ALDER
Pollen grains under the microscope.

PISGWYDD / LIME

Mae astudio paill mewn mawn neu waddodion eraill yn gallu dangos sut amgylchedd oedd yn bodoli yn y gorffennol a sut mae wedi newid. Mae'n gallu dangos ble cafodd coetiroedd eu clirio, ble'r oedd cnydau'n tyfu a lleoliad gorgorsydd. Mae'n gallu dangos sut y dylanwadodd yr amgylchedd ar bobl a sut y dylanwadodd pobl ar yr amgylchedd.



Darnau mân wedi torri i ffwrdd oddi ar ymyl yr arf wrth ei ddefnyddio.

Mae'n bosibl astudio arfau fflint o dan y microsgop i weld a gawson nhw eu defnyddio ai peidio, ac i beth y defnyddiwyd nhw.

Micro-chipping from use on a tool edge.

Flint tools can be studied under the microscope to see whether they have been used and what they have been used for.



Trwy gyfri cylchoedd tyfiant blynyddol mewn coeden gallwch fesur ei hoed. Mae blynyddoedd da a gwael yn creu cylchoedd o wahanol led ym mhob un goeden yn yr ardal. Gellir defnyddio'r rhain i sefydlu patrwm y cylchoedd mewn coed dros filoedd o flynyddoedd. Mae'n bosibl cymharu coed o safle a gloddiwyd neu o adeiladau hanesyddol a'u dyddio'n fanwl gywir. Y term am hyn yw *dendrocronoleg*. Mae Grŵp Dyddio Hen Dai Cymreig yn defnyddio dendro-cronoleg i ddyddio tai ledled Cymru, yn cynnwys yn Ynys Môn.

Roedd llestri Samiaidd (*terra sigillata*) yn llestri costus oedd yn cael eu masgynhyrchu a'u defnyddio trwy'r ymerodraeth Rufeinig. Roedden nhw'n cael eu gwneud mewn ffatrioedd yng Ngâl (Ffrainc) trwy wasgu clai gwlyb i fowldiau addurnol, cyn gorchuddio'r llestr â slip (daliant o glai mân) a'i danio i greu gorffeniad coch/oren disglair. Mae nod gweithdai crochenwaith unigol i'w weld ar nifer o'r potiau yn ogystal ag addurniadau arbennig a ddefnyddid gan rai crochenwyr. Trwy ddefnyddio'r cliwiau yma, bu'n bosibl olrhain a dyddio enwau a gyrfaoedd y prif grochenwyr. Felly, pe bai darn o lestri Samiaidd gyda nod arno'n cael ei ddarganfod yn unrhyw le yn yr ymerodraeth Rufeinig, hyd yn oed cyn belled ag Ynys Môn, byddai'n bosibl ei ddyddio'n benodol o fewn cyfnod o 20 mlynedd. Yn aml mae'n bosibl darganfod enw gwneuthurwr y pot, yn ogystal â'r union le y cafodd ei wneud.

Mae 'LVPERCI' yn dangos ei fod wedi cael ei wneud gan Lupercus, a weithiai yn Lezoux, Canolbarth Gâl, c.OC 160-200.

Counting a tree's yearly growth rings reveals its age. Good and bad years cause rings of different width in all the trees in an area. These can be used to establish the tree ring sequence over thousands of years. Wood from an excavation or historic building can be compared and precisely dated. This is called *dendrochronology*. The Dating Old Welsh Houses Group uses dendrochronology to date houses across Wales, including in Anglesey.

The stamp 'LVPERCI' on the base of a samian vessel shows that it was made by Lupercus, who worked in Lezoux, Central Gaul, c.AD 160-200.

Samian ware (or terra sigillata) was an expensive but mass produced tableware used throughout the Roman empire. It was made in factories in Gaul (France) by pressing wet clay into decorative moulds, then coating the pot in slip (a fine clay suspension) to produce a glossy red/orange finish after firing. Many of these pots are marked with the stamps of individual pottery workshops and some potters used distinctive decorations. Using these clues, the names and careers of the main potters have been traced and dated. This means that if a sherd of stamped Samian ware is found anywhere in the Roman empire, even on the distant Isle of Anglesey, the date that it was made can be narrowed down to usually about a 20 year period. Often the name of the maker of the pot can be identified, as well as the exact place where it was made.



Sbectromedr Mäs gyda Chyflymydd yn labordy dyddio radio carbon SUERC. Mae popeth byw yn cynnwys ychydig bach o garbon ymbelydrol (C¹⁴). Gan ei fod yn pydru'n raddol a chyson, gellir dyddio sampl ar sail faint o C¹⁴ sydd ynddo. Mae'n bosibl mesur C¹⁴ gyda Sbectromedr Mäs gyda Chyflymydd.

The Accelerator Mass Spectrometer at the SUERC radiocarbon dating lab, East Kilbride. All living things contain a small amount of radioactive carbon (C¹⁴). As this decays at a regular rate, the amount of C¹⁴ in a sample can be used to date it. C¹⁴ can be measured by an Accelerator Mass Spectrometer.

DADANSODDI

Mae cloddio'n gallu bod yn gyffrous a diddorol, ond dim ond rhan gyntaf o broses hir ydyw.

Ar ôl gorffen cloddio mae angen prosesu ac astudio'r holl luniau, ffotograffau, nodiadau, darganfyddiadau a'r samplau i gael cymaint â phosibl o wybodaeth. Cyfeirir at y broses ôl-gloddio hon fel 'post-ex' (post excavation).

I sicrhau bod samplau a darganfyddiadau'n cael eu dyddio'n gywir a'n bod yn cael gwybodaeth ddefnyddiol am yr amgylchedd, y gymdeithas a'r economi, weithiau gwneir profion cemegol, electronig neu waith arall yn y labordy.

Mae cofnodion y safle'n dweud wrthym yn fanwl sut y datblygodd y safle dros yr oesoedd.

ANALYSIS

Excavation can be exciting and interesting, but it is only the first part of a long process.

At the end of the excavation all the drawings, photographs, notes, finds and samples need to be processed and studied to obtain as much information as possible. This is called the post-excavation process — the 'post-ex'.


Samples and finds may need chemical, electronic or other laboratory analysis to ensure accurate dating and useful information about the environment and society and the economy.

The site records tell us in detail how the site developed over the ages.

Y safleoedd archaeolegol yn Ynys Môn sydd wedi eu cofrestru
yng Ngofnod Amgylchedd Hanesyddol

Anglesey's archaeological sites registered in the Historic Environment Record

www.archwilio.org.uk



Beth sy'n digwydd i'r eitemau ?

Maent yn cael eu cadw er mwyn eu hastudio yn y dyfodol ac o bosibl eu harddangos, ynghyd â chofnodion y safle.

Mae holl ddarganfyddiadau'r Ymddiriedolaeth ar Ynys Môn yn cael eu cadw yn Oriel Ynys Môn a chedwir cofnodion safleoedd yn Archidfy Môn.

What happens to the finds ?

They are held for future study and possible display in a museum, along with the site records.

All finds made by the Trust on Anglesey are held in the Oriel Ynys Môn collections. Site records are deposited in the Anglesey Archives, where they can be accessed.

© Archifau Ynys Môn / Anglesey Archives



GWYBODAETH

Mae cyhoeddi ac archifo'r un mor bwysig â'r gwaith cloddio ei hun a'r dadansoddiad.

Rhaid casglu'r holl ddata at ei gilydd a'i gyflwyno mewn adroddiad. Dylai ddweud pryd cafodd y safle ei wneud, sut y datblygodd, pa fath o bobl oedd yn byw yno, pryd a sut y cafodd ei ddinistrio neu ei adael, a'i gysylltiad â digwyddiadau yn y byd ehangach. Os yw'n safle pwysig cyhoeddir yr adroddiad mewn cyfnodolyn academiaidd neu fel llyfr.

Mae hefyd yn bwysig bod y gymuned ehangach yn gallu gweld y canlyniadau, a hynny trwy archifau electronig neu trwy ddehongliad ohonynt mewn llyfrau neu ar raglenni teledu.

Yn olaf, caiff yr wybodaeth ei bwydo'n ôl i Gofnod Amgylchedd Hanesyddol, i sicrhau ei bod yn cyfrannu at ymchwil yn y dyfodol a'i bod ar gael i bawb ei gweld trwy Archwilio,

www.archwilio.org.uk

KNOWLEDGE

Publication and archiving are every bit as important as the excavation itself and the analysis.

All data must be combined and presented in a report. This should relate when the site was made, how it developed, what kind of people lived there, when and how it was destroyed or abandoned, and how it ties into events in the wider world.

If the site is significant the report will be published in an academic journal or as a book.

It is also important that the results can be accessed by the wider community through electronic archives, or interpreted in books or television programmes.

Finally the information is fed back to the Historic Environment Record, so that it can contribute to future research and can be accessed by everyone through Archwilio, the on-line searchable database.

“

***Cyfoethog ac amrywiol
yw amgylchedd hanesyddol
Cymru. Mae’n gwneud
Cymru’n wahanol ac yn
arbennig. Mae’n helpu i greu
ein hunaniaeth, ein balchder
bro ac, yn hollbwysig felly,
mae’n sicrhau manteision
gwirioneddol a phendant
i’n pobl ac i’n cymunedau.***

— Huw Lewis AC 2012
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

***The historic environment
of Wales is rich and varied.
It makes Wales distinctive
and special. It helps give
us our identity, our pride in
place and, crucially, delivers
real and tangible benefits
for our people and our
communities.***

— Huw Lewis AM 2012
*Minister for Housing, Regeneration
and Heritage*

Trefnwyd gan Jane Kenney gyda chymorth staff Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, hawlfraint 2012. Cedwir yr hawl i atgynhyrchu darluniau gan ddeiliad yr hawlfraint, a diolchir iddynt am roi eu caniatâd i’w defnyddio. Mae hawlfraint unrhyw ffotograffau sydd heb eu cydnabod yn unigol yn eiddo i Ymddiriedolaeth Archaeolegol. Cynhyrchwyd gan LLYFRAU MAGMA, Llansadwrn, www.llyfrau-magma.co.uk. Golygydd y testun: Philip Steele

Compilation by Jane Kenney with the aid of other Gwynedd Archaeological Trust staff © 2012. Rights of reproduction of the illustrations are retained by the named copyright holders, who kindly gave permission for their use. Photographs not individually credited are copyright of Gwynedd Archaeological Trust. Produced by MAGMA, www.llyfrau-magma.co.uk. Text editor: Philip Steele



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust
Craig Beuno, Ffordd y Garth
Bangor, Gwynedd LL57 2RT

www.heneb.co.uk

☎ 01248 352535 gat@heneb.co.uk



© Gareth Jenkins

